Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd**

**Uned 2**
**Dunleavy Drive**
**Caerdydd**
**CF11 0SR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | The Green Giraffe Day Nursery Ltd. |
| Lleoedd cofrestredig | 90 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Awst 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn annibynnol. Maent yn hyderus ac yn ymgysylltu'n llwyr â'u gweithgareddau. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos a chynnes â'r staff a'r plant eraill.

Ar y cyfan, mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gyfeillgar ac yn darparu gofal diogel a magwrus. Mae'r staff yn cefnogi'r plant gydag amrywiaeth eang o weithgareddau, sy'n hyrwyddo chwilfrydedd, chwarae a dysgu'r plant. Maent yn cadw cofnodion effeithiol o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth o ardaloedd chwarae i annog y plant i chwarae a dysgu. Mae adnoddau a chyfarpar pwrpasol da ar gael i'r plant i feithrin eu sgiliau datblygiadol cyffredinol.

Mae'r arweinwyr yn uchel eu cymhelliant ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel. Maent yn rhoi anogaeth a chefnogaeth i'r staff ac yn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diogelu a defnyddio'r staff yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i ddatblygu'r lleoliad er mwyn gwella canlyniadau'r plant. Maent yn cynnal cysylltiadau llwyddiannus ag asiantaethau allanol ac yn meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni, sy'n fodlon iawn ar y gofal y mae eu plant yn ei gael.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn gwneud llawer o benderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser. Maent yn dewis o blith y gweithgareddau a'r teganau llawn hwyl sydd ar gael iddynt, gan ddilyn eu diddordebau. Er enghraifft, mae'r babanod yn crwydro eu hystafell chwarae yn rhydd gan ddewis o blith amrywiaeth o deganau, ac maent yn dilyn eu harferion cysgu a bwydo o'r botel unigol. Mae'r plant yn siarad yn hyderus ac mae'r rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar eto yn defnyddio arwyddion fel pwyntio i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn llwyddiannus. Er enghraifft, dywedodd plentyn wrth aelod o'r staff ei fod am gael rhagor i'w fwyta amser brecwast a rhoddodd y staff ragor o fwyd iddo.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff. Er enghraifft, mae plant sy'n ofidus neu'n ei chael hi'n anodd setlo ar ôl cyrraedd yn mynd at y staff am gysur, sy'n eu helpu i setlo'n gyflym. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol sy'n eu helpu i deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae'r plant yn tacluso ac yn golchi eu dwylo cyn amser bwyd.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain neu gyda'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu i rannu a chydweithio. Er enghraifft, mae'r plant iau yn rhannu adnoddau fel paent a chyfarpar chwarae rôl yn hawdd. Mae'r plant hŷn yn mwynhau amseroedd bwyd cymdeithasol â'i gilydd. Mae'r plant yn sgwrsio'n hapus â'u ffrindiau ac yn parchu ei gilydd a'r adnoddau, gan eu defnyddio'n briodol a helpu i dacluso pan ofynnir iddynt wneud hynny.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael budd o amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran ym mhob ystafell ac yn yr ardal awyr agored. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Er enghraifft, mae'r babanod yn ymgolli'n llwyr wrth osod blociau, mae'r plant iau yn creu cludweithiau o'r jyngl, ac mae'r plant hŷn yn mwynhau gwrando ar y staff yn darllen llyfrau iddynt. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, gwelsom y plant bach yn bwydo eu hunain, gyda'r staff yn cynnig cymorth lle bo angen. Mae'r plant hŷn yn arllwys eu diodydd eu hunain a gweini eu bwyd eu hunain yn hyderus yn ystod amseroedd bwyd. Mae'r plant o bob oedran yn helpu i dacluso eu teganau ar adegau penodol. Mae'r plant hŷn yn gallu golchi a sychu eu dwylo'n hyderus, ac mae'r plant iau yn gwneud hynny gydag arweiniad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r mwyafrif o'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn hyderus ynghylch y gweithdrefnau priodol i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn, ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg effeithiol a chywir, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Eir i'r afael ag unrhyw beryglon a nodir yn gyflym. Cedwir cofnodion manwl o unrhyw ddigwyddiadau a damweiniau, ac unrhyw achosion lle bydd y staff yn rhoi meddyginiaeth i blentyn. Mae'r staff yn cadw cofrestrau presenoldeb ar gyfer eu hunain a'r plant, ond nid yw'r rhain bob amser yn adlewyrchu'n gywir pa staff sy'n gweithio gyda'r plant ar unrhyw adeg benodol. Mae system gadarn ar waith ar gyfer rheoli alergeddau bwyd yn ddiogel. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo pan fo angen ac yn dilyn y gweithdrefnau priodol wrth newid cewynnau. Ceir ardaloedd penodol ar gyfer newid cewynnau sy'n cynnig preifatrwydd da i bob plentyn. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau chwarae a dysgu rheolaidd yn yr awyr agored bob dydd, gan gynnig manteision ymarfer corff ac awyr iach iddynt.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn defnyddio technegau atgyfnerthu cadarnhaol. Maent yn rhoi canmoliaeth ac anogaeth i'r plant ar gyfer gwaith tacluso da ac am gyflawni eu nodau wrth chwarae. Mae'r staff yn fodelau rôl da. Maent yn annog moesau da ac yn atgoffa'r plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' yn ystod amser byrbryd ac amseroedd bwyd. Mae'r staff yn canmol y plant yn briodol er mwyn dathlu eu cyflawniadau, gan helpu iddynt deimlo balchder yn yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn ymuno â'r plant i chwarae pan fydd yn briodol gwneud hynny, ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt. Yn ystod amser cinio, gwelsom y staff yn sgwrsio â'r plant hŷn am eu diwrnod. Mae'r staff yn dangos diddordeb yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae ac maent yn trafod tasgau mewn ffordd bwyllog a chefnogol. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal. Mae'r rhyngweithio yn gynnes, yn ddiddorol ac yn dangos dealltwriaeth a charedigrwydd sensitif tuag at y plant.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn arsylwi ar y plant yn chwarae ac yn dysgu yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd. Mae hyn yn eu helpu i gynllunio gweithgareddau er mwyn galluogi camau dysgu a datblygu nesaf y plant. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu cofnodi a'u hystyried wrth gynllunio gweithgareddau a datblygiadau newydd. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn wybodus am eu datblygiad. Mae hyn yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Mae'r staff yn wyliadwrus ac yn cadw llygad am arwyddion y gallai fod gan blant anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gefnogi'r plant hyn. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg gyda'r plant yn achlysurol. Mae'r staff yn dilyn system gweithwyr allweddol sy'n galluogi'r plant i setlo yng nghwmni staff cyfarwydd sy'n deall eu hanghenion unigol.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae'r amgylchedd yn cynnig lle glân a diogel i'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y drysau allanol a'r giatiau ar glo bob amser. Mae'r arweinwyr yn cadw cofnodlyfr o ymwelwyr er mwyn darparu cofnod cywir o unrhyw unigolion sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae'r cofnodion yn dangos bod ymarferion tân yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y safle a gweithgareddau'r plant. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant a'u dileu lle y bo'n bosibl. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y boeler nwy a'r system wresogi yn cael eu profi'n flynyddol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr da yn cynnig gofod croesawgar sy'n addas i blant. Mae lluniau o'r plant ac arddangosiadau yn dathlu eu gwaith yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae ystafelloedd gwahanol ar gael sy'n golygu bod modd rhannu'r plant yn grwpiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae hyn yn golygu bod digon o le i'r plant chwarae a dysgu ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw. Mae'r ystafelloedd dan do yn cynnwys corneli tawel a goleuadau llai llachar, sy'n rhoi cyfle i'r plant orffwys ac ymlacio yn ogystal ag ymgymryd â chyfleoedd chwarae ysgogol. Mae nifer addas o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn hawdd eu defnyddio. Mae'r plant yn mwynhau amseroedd bwyd cymdeithasol gyda'i gilydd yn eu hystafelloedd chwarae. Mae'r babanod yn bwyta yn eu hystafell chwarae lle mae cadeiriau uchel lefel isel yn eu galluogi i eistedd gyda'i gilydd. Mae'r hysbysfyrddau yn dangos gwybodaeth am anghenion deietegol y plant. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant. Mae ystafell gysgu benodol yn yr adran fabanod yn cynnig lle diogel a thawel i'r plant gysgu heb fod neb yn tarfu arnynt. Mae gan y plant hŷn y mae angen iddynt gysgu yn ystod y dydd o hyd fatiau unigol i'w galluogi i gysgu'n gyfforddus.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol sy'n cynnig amrywiaeth a dewis i'r plant mewn ystafelloedd gwahanol. Mae'r dodrefn, y teganau a'r cyfarpar o ansawdd da, ac yn briodol ar gyfer datblygiad y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant a lle storio teganau lefel isel, sy'n addas i oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r ardal awyr agored yn ardal groesawgar lle y gall y plant archwilio a dysgu am y byd o'u cwmpas, a meithrin amrywiaeth o sgiliau. Mae'r staff yn sicrhau bod eitemau bywyd go iawn ac eitemau amlddiwylliannol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o gydraddoldeb ac amrywiaeth ddiwylliannol. Maent yn gwirio'r teganau, y cyfarpar a'r adnoddau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn lân ac mewn cyflwr da.

## **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** **Gwael**

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau parhaus. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i ddarparu gofal plant o safon. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaeth i'r lleoliad. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiad lle nad oedd yr holl blant wedi cael eu diogelu. Felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, mae'r arweinwyr wedi adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n diogelu'r plant ac rydym wedi cael sicrwydd bod newidiadau wedi cael eu gwneud. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o staff i ofalu am y plant sy'n bresennol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r staff yn effeithiol. Mae hwn yn faes i'w wella, a chaiff ei adolygu yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu ag AGC ac yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau arwyddocaol.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i wella ac wedi croesawu'r adborth o'r arolygiad. Maent yn gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol, ac yn barod i dderbyn adborth ac i weithredu ar faterion y tynnir eu sylw atynt. Mae'r arweinwyr yn cwblhau'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal a'r adroddiad ar yr arolygiad hwnnw. Maent yn gofyn am safbwyntiau'r staff a'r rhieni am y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn ystyried y safbwyntiau hyn ac yn nodi cryfderau a blaenoriaethau.

Mae'r arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau recriwtio ac yn cadarnhau bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Maent yn sicrhau bod anghenion hyfforddiant y staff yn cael eu diwallu ac mae matrics hyfforddiant clir ar waith. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau cymwysterau gorfodol, fel diogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r arweinwyr yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd, ac maent yn canolbwyntio ar gefnogi llesiant a datblygiad personol y staff. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr arweinwyr a'u bod yn hapus yn eu gwaith.

Mae'r partneriaethau yn gadarn. Mae'r staff yn sgwrsio â'r rhieni am eu plant ar ddiwedd y dydd. Caiff lluniau o'u plant yn chwarae ac yn gweithio, arsylwadau datblygiadol a chamau nesaf eu rhannu â'r rhieni drwy ap electronig. Dywedodd y rhieni eu bod wedi gweithredu ar y camau nesaf a nodwyd gan y lleoliad gartref. Mae hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant. Mae'r rhieni yn llofnodi'r cofnodion meddyginiaeth, damweiniau a digwyddiadau yn electronig i ddangos eu bod wedi cael gwybod amdanynt. Mae adborth y rhieni am y lleoliad yn gadarnhaol iawn, gyda llawer ohonynt yn canmol y staff cyfeillgar, y ffaith bod y tîm rheoli yn hawdd mynd ato, a'r lefelau cyfathrebu uchel a chyson.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Rhaid i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael bob amser i ofalu am y plant a'u goruchwylio. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 27 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod niferoedd priodol o staff medrus a phrofiadol sy'n meddu ar gymwysterau addas yn cael eu defnyddio'n effeithiol ym mhob rhan o'r lleoliad. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod cofrestrau'r plant a'r staff yn cael eu cofnodi'n gyson ac yn glir a'u bod yn nodi pa staff sy'n gofalu am bob plentyn ar unrhyw adeg o'r dydd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/09/2024